# Y Ddolen

## Papur

Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin
a Bancyfelin



**Arglwydd Iesu, Geidwad annwyl,**
**clyw ein cri ar ran y byd,**
**sŵn rhyfela sy'n y gwledydd**
**sôn am ing a thrais o hyd.**
**O! Na welem**
**heddwch yn teyrnasu byth.**

**Edna Jones (1922-2010)**

# Rhifyn 5
# PAPUR MEDI 2026

# Gair gan ein Gweinidog

## Tanau Gwyllt

**Croeso nôl i bawb wedi cyfnod yr haf. Edrychaf ymlaen at gydweithio â chi eto yn y tymor newydd hwn.**



**Er inni fwynhau tywydd bendigedig dros dymor yr haf, nid oedd y cyfnod hwn o sychder heb ei ofid. Gyda'r tir mor sych, cawsom ein hysgwyd i'r byw o weld y tanau gwyllt yn ymledu ac yn tagu erwau de Cymru a thu hwnt.**

**Mae tanau gwyllt yn ein hatgoffa ba mor sydyn y gall bywyd newid. Mae fflam fechan yn medru troi mewn amrantiad yn dân ffyrnig, gan gydio mewn fforestydd cyfan, cartrefi a phopeth sydd ar ei lwybr. Ac eto, hyd yn oed yng nghanol dinistr, gallwn weld dewrder, tosturi a gobaith.**

**Weithiau gall bywyd deimlo fel tân gwyllt. Wynebwn dreialon, colled, ofn ac ansicrwydd. Ond nid yw Duw yn troi ei gefn arnom pan fydd y fflamau'n codi. Mae Ef yn cerdded gyda ni drwy'r tân.**

**Mae'n werth nodi'r adnod hon yn Llyfr y Proffwyd Eseia 43:2, *"Pan fyddi'n mynd trwy'r tân, ni fyddi'n cael dy losgi; ni fydd y fflamau'n dy ddifa."***

**Nid yw hyn yn golygu na fyddwn byth yn ngwres tân yn profi caledi a gofid. Golyga y bydd Duw gyda ni yng nghanol y gwres.**

**Pan fydd tanau gwyllt yn cyrraedd, mae cymunedau'n dod at ei gilydd. Mae pobl yn helpu dieithriaid, yn amddiffyn ei gilydd, ac yn ailadeiladu'r hyn a gollwyd. Yn yr un modd, mae Duw yn ein galw i fod yn ffynhonnell goleuni a chymorth i'r rhai sy'n dioddef.**



**Felly, pan fydd tanau bywyd yn ein amgylchynu, peidiwn â digaloni. Gweddïwn yn hytrach am nerth Duw ac iddo'n defnyddio i fod yn gyfryngau ei gysur i gymydog.**

**Dyma weddi. A luniais yn ystod mis Awst, pan oedd y tanau gwyllt ar eu gwaethaf.**

**Gweddi dros bawb y'n cael eu heffeithio gan y Tanau Gwyllt**

**Gweddïwn**

**Dad Nefol,**



**Gweddiwn dros bawb sy'n cael eu heffeithio gan y tanau gwyllt.**

**Amgylchyna hwy â phobl ofalgar, a'u hatgoffa nad ydynt ar eu pennau eu hunain.**

**Bendithia bob llaw sy'n helpu a phob gweithred o dosturi.**

**Amddiffyn bawb sy'n dal mewn perygl, a chadwn nhw'n ddiogel.**

**Gofala am y diffoddwyr tân, a phawb sy'n gweithio'n ddiflino i amddiffyn a helpu eraill. Cadw nhw'n ddiogel a rho nerth iddynt ddyfalbarhau yn eu gwasanaeth.**

**Helpa ni i fod yn ofalus ac yn gyfrifol yn ein gweithredoedd, yn enwedig mewn ardaloedd ble gall tanau gwyllt ddechrau'n hawdd.**

**Helpa ni i barchu'r tir, y coedwigoedd, yr anifeiliaid a'r bobl sy'n rhannu'r byd hwn gyda ni.**

**Gweddïwn am nerth a gobaith yng nghanol y cyfnod anodd hwn.**

**Yn enw Iesu Grist. Amen**

**Amen**



## PANED A SGWRS

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**BORE MERCHER 23 MEDI 2026 – 10.30**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Croeso cynnes i bawb**



# DARLLENIADUR

| Mis Medi | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Mathew 18:15-20 |
| Wythnos 2 | Mathew 19: 21-35 |
| Wythnos 3 | Mathew 20:1-16 |
| Wythnos 4 | Mathew 20:23-32 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**JOHN A CARYS GREEN**
**MYFANWY JONES A BRYAN**
**CAPEL BANCYFELIN**
**CAPEL CANA**

***at gyhoeddi'r Ddolen y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI'R DDOLEN?
CYSWLLT: PHILIP JONES (TRYSORYDD)
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu ei osod mewn amlen a'i ddychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei roi yn y blwch casglu.

DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL
DYDD LLUN 21 MEDI 2026
Cofiwch wylio am drefniadau Cymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin i godi'r Faner Heddwch Ryngwladol y tu allan i Neuadd San Pedr am 5 o'r gloch
*Thema eleni – Buddsoddwch mewn Heddwch – i Bawb, ym Mhobman, Bob Dydd*

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

# Tudalen Blaen



**Cynhelir Diwrnod Heddwch y Byd y Cenhedloedd Unedig ar 21 Medi yn flynyddol i gofio ac i annog y delfryd o heddwch mewn byd heb ryfel a thrais.**

**Mae anogaeth i eglwysi ar draws Prydain i weddïo dros heddwch ar y diwrnod arbennig hwn.**

**Ar y tudalen blaen dyfynnir pennill cyntaf emyn heddwch a gyfansoddwyd gan Edna Jones (1922-2010). Ceir yr emyn cyflawn isod. Fe'i codwyd o Wefan Gobaith. Cafodd yr emyn ei gynnwys yn rhaglen Cymanfa Ganu Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017 i'w ganu ar y dôn Tyddyn Llwyn.**

**Arglwydd Iesu, Geidwad annwyl,**
**clyw ein cri ar ran y byd,**
**sŵn rhyfela sy'n y gwledydd**
**sôn am ing a thrais o hyd.**
**O! Na welem**
**heddwch yn teyrnasu byth.**

**O! na chaem ni weld y dyddiau**
**pan fo pawb yn byw'n gytûn;**
**brawd yn caru brawd ym mhobman**
**a phob dyn yn parchu dyn.**
**O! na welem**
**heddwch yn teyrnasu byth.**

**Boed i holl drigolion daear**
**wrando d’eiriau Di dy Hun,**
**dysgu caru ein gelynion,**
**gweld y gorau ym mhob un.**
**O! na welem**
**heddwch yn teyrnasu byth.**

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# MODIWL
# Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

| | | |
|---|---|---|
| Nos Lun, 7 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 14 Medi | 7:30- 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 21 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 28 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 5 Hydref | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Dydd Llun, 12 Hydref | 10:00 - 3:00 | Aberystwyth |

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn ‘beth yw sacrament?’, edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a’r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â’r Parchedig Carwyn Siddall:
carwyn@annibynwyr.cymru



Alun Lenny



## GOLEUNI MEWN TYWYLLWCH

**Mae stori Rhian Evans o Gaerfyrddin am sut yr aeth ati i ddygymod â cholli ei golwg yn 32 oed yn un rhyfeddol. A hithau bellach wedi bod yn ddall ers 50 mlynedd, bu Rhian yn adrodd ei hanes yn Sul Sbesial Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn Ysgol Griffith Jones Sanclêr.**



Wrth i'w golwg ddirywio roedd hi'n benderfynol o fyw ei bywyd yn llawn. Dechreuodd wasanaeth 'Papur Llafar' i bobl ddall a rhannol ddall. Gyda chymorth gwirfoddolwyr, aeth ati i ddechrau recordio newyddion y *Carmarthen Journal* yn stiwdio Radio Ysbyty Glangwili. Ymhen tua tair blynedd sefydlodd gynllun sy'n cael ei adnabod bellach fel Llyfrau Llafar Cymru, gyda channoedd o bobl ar draws Cymru yn derbyn llyfrau llafar bob mis.

### Bendith Technoleg

'Mi gollais i fy ngholwg yn araf, a roddodd amser i fi addasu a dysgu ffyrdd newydd o 'neud pethe. Ac rwy'n hynod o ddiolchgar mai yn yr oes dechnolegol hon y mae hyn wedi digwydd i mi, am fod gwyddoniaeth a thechnoleg wedi bod yn gymorth amhrisiadwy i bobol anabl.' Mae gan Rhian sbectol arbennig iawn o America, sy'n 'gweld' ar ei rhan ac yn siarad â hi yn ei chlust. O roi gorchymyn i'r sbectol, mae'n medru dweud wrth Rhian yn gywir beth sydd o'i blaen hi, boed bwrdd neu ddarllen print. Mae'r sbectol hefyd yn cysylltu gyda'i ffôn symudol, gan ddatgan enw'r sawl sy'n ffonio, neu'n anfon neges destun at rywun.

### Bendith Iesu

'Goleuni mewn tywyllwch' oedd testun anerchiad Rhian i gynulleidfa o tua 100 o bobl yn y Sul Sbesial. Mae hynny'n adlais o Ioan 1:5 *Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.* Mae gan Rhian, sy'n aelod yn Y Priordy, Caerfyrddin, ffydd Gristnogol gadarn. 'Er gwaetha'r tywyllwch mae modd troi'r anabledd ar ei ben a 'neud rhywbeth positif ohono, a hynny am fy mod i'n credu yn Iesu Grist, a bod Iesu'n nerthu pobol sydd â rhyw anableddau. Yn wir, mae e'n nerthu unrhyw un sy'n gofyn am gymorth ganddo fe,' meddai Rhian. 'Pan yn ifanc fydden i ddim wedi breuddwydio canu'r emyn 'efallai mai'r storom fawr ei grym a ddaw â'r pethau gorau im' ond fi'n grediniol bod y storom yna yn fy mywyd i wedi esgor ar rai o'r bendithion mwyaf pleserus rwy wedi profi erioed.'  Dywedodd Rhian ei bod hi wedi defnyddo'i synhwyrau eraill yn well ers mynd yn ddall. Ac mae modd ystyried y pum synnwyr mewn termau ysbrydol meddai.

**Gweld**
'Mae Rhys Nicholas yn ei emyn yn dweud *Lle'r oeddwn gynt yn ddall, rwy'n gweld yn awr* ' meddai Rhian. 'Fe 'y ni'n canu ar ddechrau'r oedfa yn Y Priordy bod Sul *'agor ein llygaid i weld yr Iesu'* a dyna beth mae ffydd yn neud; mae'n e'n dangos i ni sut bobol 'y ni, pa fath o deimliadau sydd gyda ni, beth yw ein hangen ni. Mae Iesu Grist wedi dweud *'Myfi yw goleuni'r byd, nid oes neb sy'n fy nilyn i yn rhodio yn y tywyllwch, ond mae ganddo oleuni'r bywyd.* 'Dy ni ddim yn gweld bod Duw wrth law i ni, ond yno mae e; dy'w e ddim yn gadael ni.'

**Gwrando**
'Mae gwrando yn hynod bwysig i fi. Dwy'n nabod pobol yn ôl eu lleisiau, ac mae llawer o bethau yn y tŷ sy'n siarad â fi – Alexa, ffôn symudol, tafol yn yr ystafell ymolchi a'r gegin, a chyfrifiadur sydd yn siarad. Mae'n bwysig hefyd bo ni'n gwrando'n ysbrydol, ac yn gofyn i Dduw i agor ein clustiau er mwyn i ni glywed ei lais. Mae e'n siarad â ni drwy'r Ysgrythur, geiriau'r emynau ac mewn gweddïau. Mae'r proffwyd Eseia yn dweud *Gwrandewch yn astud arnaf, deuwch ataf a chlywch, a byddwch fyw! Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael ef, galwch arno tra fyddo yn agos.*' Dywedodd Rhian ei bod yn arbennig o hoff o'r emyn, sy'n gorffen gyda'r pennill:



*Mi glywais lais yr Iesu'n dweud*
*Goleuni'r Byd wyf i,*
*Tro arnaf d'olwg, tyrr y wawr*
*A dydd a fydd i ti.*

'Dyna galondid, bod Iesu Grist yn goleuno'r ffordd i ni' meddai.

**Teimlad**
Mae hwn yn bwysig, meddai Rhian. Mae'n teimlo pa ddillad i wisgo, yn teimlo'i ffordd o gwmpas y tŷ, ac yn y blaen. Un o'r pethau mwyaf gwerthfawr wnaeth hi oedd dysgu sut i ddarllen Braille, sgil oedd ddim yn rhwydd, gan fod y dotiau bach yn fân iawn. Ond fe wnaeth ddal ati. Digwyddiad mawr yn ei bywyd oedd cyhoeddi'r Testament Newydd a'r Salmau yn Gymraeg mewn Braille. Canmolodd ei gweinidog, y Parchg Beti–Wyn James am fynd ati i godi'r £25,000 oedd ei angen i gyhoeddi'r Ysgrythur yn Gymraeg yn 2010. 'Nawr roeddwn yn gallu teimlo'r geiriau sydd mor werthfawr i fi. Mae'r Beibl hwnnw yn cyfrannu at y goleuni sydd 'na yn fy nhywyllwch i. Gorsedd y teimladau yw'r galon, yn y galon 'y ni'n teimlo euogrwydd ac yn gwybod beth yw maddeuant; yn y galon 'y ni'n teimlo cariad, ac yno 'y ni'n teimlo cydymdeimlad, sydd mor bwysig i'r Cristion.'


**Blasu**
Ry' ni'n amal iawn yn dweud bo ni'n cael blas ar rywbeth, fel meddai Rhys Nicholas yn ei emyn *Tydi a roddais i mi flas ar fyw.* Y gallu i fynd ymlaen yn hyderus yw'r *blas* yma.

**Arogli**
Weithiau pan rwy'n cyfarfod â rhywun, rwy'n meddwl: *O, mae ganddi bersawr hyfryd!* Pan fyddai'n cwrdd â rhywun arall, byddai'n meddwl bod eu personoliaeth yn persawri. Mae gan yr Apostol Paul rywbeth i'w ddweud ar y testun hwnnw. Mae e'n dweud mai 'perarogl Crist 'y ni, *Aroglau meysydd Duw fydd ar ein gwisgoedd ni.* Beth yw'r gwisgoedd hynny? Caredigrwydd, addfwynder, amynedd a llawenydd – dyna'n gwisgoedd ni i fod, a dros y cwbwl gwisgo amdanom ni yr Arglwydd Iesu Grist.

**Y Ffon Wen**
Peth arall sydd wedi cyfoethogi fy mywyd i yw'r ffon wen. Ro'dd hi'n anodd ar y dechrau i lyncu fy malchder, am nad 'o ni am fod yn wahanol i bobol eraill. Ond ers i fi ddefnyddio hi, mae bywyd wedi bod llawer yn haws. Mae gan y Beibl hefyd rhywbeth i'w ddweud am y ffon. *Dy wialen di a'm ffon a'm cysurant* meddai'r Salmydd. Rwy'n hoff iawn, iawn hefyd o stori Esther. Pan oedd y genedl yn y gaethglud ym Mabilon ac yn cael ei chamdrin yn sobor, fe wnaeth Mordecai ymbil ar y frenhines Esther, oedd yn Iddewes, i fynd at y brenin. Pan welodd y brenin Esther, fe estynnodd deyrnwialen aur ati. Dyna rwy'n credu mae Iesu Grist yn ei wneud, mae e'n estyn y deyrnwialen aur ato ni yn ei ras ac yn ei gariad, gan ddweud 'D'wi wedi maddau dy holl feiau di ar groes Calfari.' O ystyried hyn i gyd, mae'r tywyllwch **yn** troi'n oleuni.'


Plant Ysgol Sul Y Priordy a fu'n traddodi Dameg yr Heuwr

Diolch i Rhian am anerchiad wefreiddiol, i blant Ysgol Sul Y Priordy am y cyflwyniad, i Dafydd, Anwen a Daniel am gyfeilio mor fywiog, ac i griw Bethlehem Newydd a Gibeon am arlwyo'r dished a'r bisgedi ar ddiwedd yr oedfa. Yn Ysgol Griffith Jones y cynhaliwyd y Sul Sbesial cyntaf erioed yn 2007. Mae'n braf dweud i'r achlysur fod mor sbesial ag erioed unwaith eto eleni.





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

## Tŷ Capel Y Priordy

Braint i ni fel eglwys oedd rhoi cartref i deulu o Syria dros y saith mlynedd diwethaf. Mae’r teulu hwnnw bellach wedi ymsefydlu yn y dref a symud ymlaen. Gyda’r Tŷ Capel yn wag, a chyda chydweithrediad Cyngor Sir Gaerfyrddin, cwblhawyd gwaith adnewyddu sylweddol iddo. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Huw Jones, Cadeirydd Is-bwyllgor yr Adeiladau, am oruchwylio’r gwaith i gyd. Diolch hefyd am gymorth Peter Hughes Griffiths, Adrian Evans ac Alison Parsons ynghyd ag aelodau Is-bwyllgor yr Adeiladau. Mae’n dda iawn gennym adrodd bod y Tŷ Capel yn barod a theulu o Wcráin wedi symud yno ddiwedd Awst. Diolch am y bartneriaeth rhwng y Cyngor Sir a ninnau fel eglwys unwaith eto. Mae’n dda cael cydweithio yn y cyd-destun hwn. Dymunwn yn dda i’r teulu bach yn eu cartref newydd



**CADW'N DDIOGEL**

**Fe'i ganed yn Halifax yn 1890 – un o bymtheg o blant. Gadawodd Ysgol Fwrdd Boothtown yn 13 oed a gweithio gyda' r prif ddiwydiannau lleol yn Halifax, gan gynnwys tecstiliau, peirianwaith a chynhyrchu offer peiriant. Ymunodd â'I dad yn ddiweddarach i weithio mewn gweithdy offer peiriant yn agos at gartref y teulu. Erbyn 1930 roedd wedi dechrau gweithio fel contractwr ffordd a chychwyn ei fusnes ei hunan a chyflogi ei weithwyr ei hunan.**




**Yn aml roedd e'n gyrru 'Doris,' ei Ford Model T 1916 ar y darn o'r ffordd droellog rhwng Queensbury, pentref yn Bradford, a Boothtown, maestref yn Halifax. Roedd disgyniad eithaf serch ar un ochr y ffordd. Roedd yr unig olau ar y ffordd yn y nos yn dod o'r trac tramiau y dywedodd Percy ei fod yn disgleirio 'fel rhubanau arian deublyg' ac yn gweithredu fel canllaw ar y ffordd. Un nos on niwlog pan oedd e'n gyrru heibio'r un ffordd gwelodd gath, yn eistedd ar ffens sylwodd sut roedd ei llygaid yn treiddio trwy'r tywyllwch. Darparodd y trac tramiau a llygaid y gath syniad iddo am stydiau ffordd adlewyrchol.**



**Fe dderbyniodd ei ddyfais batent fel Llygaid Cath yn 1934 a sefydlodd ei gwmni, Stydiau Ffordd Adlewyrchol yn 1935.**

**Llygaid cath yw conglfaen diogelwch y ffordd yn y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n eu gwneud hi'n haws i yrwyr weld y ffordd o'u blaen. Maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol yn y tywyllwch mewn niwl neu ynghanol tywydd stormus glawog. Maen nhw'n eich lleoli chi ac yn eich helpu i weld ble rydych chi ac i ble rydych chi'n mynd. Maen nhw'n eich arbed rhag gwyro ar y dde ac ar yr aswy law. Ac i bwy mae'r diolch am y ddyfais i'n helpu i deithio o le i le? Wel, y gŵr o Halifax, Percy Shaw.**

**Mae dyluniad llygaid cath wedi esblygu dros amser, gan gynnwys deunyddiau a thechnolegau datblygedig i wella eu heffeithiolrwydd a'u gwydnwch. Mae presenoldeb llygaid cath ar y ffordd yn dyst i gynhyrchiant a rhagwelediad peiria nwyr fel**

**Percy Shaw. Cafodd Percy ei wobrwyo gyda'r OBE yn 1965 a bu farw ar 1 Medi 1976, sef hanner can mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Diolch iddo am y ddyfais fwyaf disglair a gynhyrchwyd erioed i wella diogelwch ffyrdd.**

**Ond un peth yw teithio'n ddiogel ar y ffordd fawr. Mae angen diogelwch arnom wrth deithio ar ffordd bywyd hefyd. Pam, meddech chi? Mae'r rheswm gan Bantycelyn yn un o'i emynau enwocaf. Meddai:**

**Pererin wyf mewn anial dir,**
**yn crwydro yma a thraw…**

**Mi wyraf weithiau ar y dde**
**Ac ar yr aswy law…**

**Mae'n bwysig bod ystyr a phwrpas i bob taith, gan fod crwydro'n ddiamcan yn gwbl ofer ac yn wastraff ar amser ac ynni. Mae'r emynydd yn ceisio help. Meddai:**

**Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,**
**Bydd imi'n niwl a thân**
**Ni cherdda' i'n gywir hanner cam**
**Oni byddi di o'm blaen.**

**Myfi yw y ffordd, meddai Iesu. Mae'n dangos y ffordd i ni, mae'n cydgerdded â ni. Nid ein tywysydd yn unig yw e ychwaith. Ef ei hun yw'r ffordd. y ffordd i'r nef. Y ffordd i fywyd ystyrlon. Y ffordd i ganfod ein galwedigaeth, ein pwrpas.**



***Ffordd newydd wnaed gan Iesu Grist***
***I fyned heibio uffern drist;***
***Hon a gysegrwyd ganddo Ef***
***O ganol byd***
***i ganol nef.***

**Ie, diolch i Percy Shaw am ein tywys yn ddiogel ar hyd y ffordd fawr ond diolch yn fwy i Iesu am addo ein tywys ar hyd y ffordd i fywyd tragwyddol.**

## LLONGYFARCHIADAU MAWR I'R CANLYNOL

### TUDUR DYLAN JONES (P)

**Ar gael ei ethol yn Archdderwydd yr Eisteddfod gan ddilyn ôl troed ei dad - y Parchedig John Gwilym Jones a fu'n Archdderwydd rhwng 1993 a 1996 - a'i ewythr y Parchedig T James Jones a fu'n Archdderwydd rhwng 2009 a 2013.**



### GLENYS THOMAS (P)

**Ar gael ei derbyn i'r Orsedd dan yr enw Glenys Gwyrfon.**









### ELINOR WYN REYNOLDS (P)

**Ar ennill Stomp (Barddoniaeth) Maes D Eisteddfod Y Garreg Las.**


**Peter Hughes-Griffiths**



## Allwedd y Tannau

Yn flynyddol adeg yr eisteddfod genedlaethol bydd *Allwedd y Tannau,* sef cylchgrawn Cymdeithas Cerdd Dant Cymru yn cyrraedd, ac rwyf wrth fy modd yn ei ddarllen er mwyn dod i wybod mwy am hynt a helynt canu cerdd dant sy'n rhan mor arbennig o'n diwylliant ni fel Cymry.

Mae canu cerdd dant, wrth gwrs, yn ddawn sy'n perthyn i ni'r Cymry yn unig, pan mae unigolion neu bartïon a chorau yn canu barddoniaeth i gyfeiliant y delyn. Fe welson ni hyn mor glir yn yr eisteddfod genedlaethol eleni eto gyda chystadlu brwd a niferus yn yr holl gystadlaethau cerdd dant.




Yn y cylchgrawn *Allwedd y Tannau* eleni fe gawn ddarlun llawn o weithgarwch aelodau'r Gymdeithas gyda Delyth Medi o Gaerdydd yn Llywydd.

Mae 25 o delynau'r gymdeithas yn cael eu llogi gan unigolion ar hyd a lled Cymru a hynny'n bennaf gan ddechreuwyr. Fe drefnir cyrsiau ar sut i osod barddoniaeth i gyfeiliant telyn, eto ar gyfer dechreuwyr a'r rhai profiadol. Mae'r Ŵyl Gerdd Dant eleni yn cael ei chynnal yng Nghaernarfon ar Sadwrn Tachwedd 14eg.

Ond, yr hyn sy'n werthfawr i bawb yn y cylchgrawn yw'r 'Canllawiau Gosod' a'r cyfarwyddiadau ar gyfer yr holl gystadlaethau yn yr Ŵyl Gerdd Dant ac yn ein heisteddfodau cenedlaethol, yn ogystal â'r'r beirdd yn egluro cefndir a chynnwys eu darnau barddoniaeth.

Wyddech chi fod rheolau caeth i ganu cerdd dant? Oes yn wir, mae mwy i'r gamp na dim ond canu geiriau ar un alaw tra bo'r delyn yn canu alaw arall mewn harmoni!

O ddarllen *Allwedd y Tannau* eleni eto rhaid diolch i'r Gymdeithas am sicrhau parhad y dull o ganu barddoniaeth sy'n eiddo i ni'r Cymry yn unig trwy'r byd cyfan.

Swyddogion gweinyddol y gymdeithas yw John Eifion a Marina Bryn Jones ac fe ellir cysylltu gyda nhw drwy e bost:
cerdd.dant.cymru@gmail,com

## GWAITH CAMPUS NIA

**Croesawyd pêl-droedwraig ryngwladol Cymru Ffion Morgan i'r Hwb Sgiliau yn Cross Hands yn ddiweddar i gasglu'r cynhyrchiad cyntaf o'r Ladi Gymreig newydd wedi'i greu gan ein crefftwraig dalentog a chefnogwraig frwd o bêl-droed Cymru Nia Hopley (HA). Mae'r darn arbennig yma o'i gwaith yn dathlu campau anhygoel tîm menywod Cymru a mae'n cyfuno'i hangerdd tuag at bêl-droed â chrefftio. Da iawn Nia!**





# CWIS YR IDIOMAU CYMRAEG

## Mae pob idiom yn dechrau gyda'r llythyren "A'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | â bys ym mhob --- |
| | |
| 2 | â'i gwynt yn ei --- |
| | |
| 3 | â'i thafod yn ei --- |
| | |
| 4 | â'i thraed ar y --- |
| | |
| 5 | agored led y --- |
| | |
| 6 | angel pen ffordd a diawl pen --- |
| | |
| 7 | ar ei newydd --- |
| | |
| 8 | ar flaen y --- |
| | |
| 9 | ar gefn ei --- |
| | |
| 10 | ar gof a --- |

*Ffynhonnell – Geiriadur Idiomau - Alun Rhys Cownie*

Atebion ar Dudalen 26

**Dathliad diwedd tymor Ysgol Sul Y Priordy ym Mharc y Dref**



**Dathliad diwedd tymor Ysgol Sul Cana**

**Picnic a Mabolgampau**



GOFALAETH
CAERFYRDDIN A BANCYFELIN

# CINIO DYDD SUL YR OFALAETH

**** Dydd Sul, 20 Medi 2026 am 1.00 o'r gloch ****

**** Yng NGWESTY'R LLWYN IORWG. ****

**PRIS £22** am ddau gwrs.

*Enwau i*

Joanne Richards (B) | Mair Jones (C) | Ann Walters (E)
Olga Williams (HA) | Rhian Jones (P)

---

# Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

*Y Gymdeithas*



**Dydd Mawrth, 20 Hydref 2026**

Am 2.00 y prynhawn yn
**FESTRI CAPEL HEOL AWST**



*Yng nghwmni y*
*Darpar Archdderwydd*
**TUDUR DYLAN**
—**TEULU PARCNEST**—

*Croeso cynnes i bawb*

## BEIBL I BAWB!

Hyfrydwch gan ein Gweinidog oedd cyflwyno Beiblau i flwyddyn 5 Ysgol y Dderwen. Noddwyd y Beiblau gan Gapeli ac Eglwysi Cymraeg Caerfyrddin yn dilyn yr oedfa Gŵyl Dewi Undebol. Hefyd, hyfrydwch oedd cyflwyno Beiblau i flwyddyn 6 Ysgol Bancyfelin. Noddwyd y Beibau gan Gapel Bancyfelin er cof am y ddiweddar Sallie Walters a fu'n aelod ffyddlon ar hyd ei hoes.





# Ifanc@Gofalaeth




Croeso nôl i bawb wedi gwyliau'r haf! Gobeithio cawsoch amser da. Rydym yn edrych ymlaen at gael eich cwmni yn yr Ysgolion Sul yn ystod y tymor newydd.

## Mabolgampau MIC

Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran ym Mabolgampau MIC yn Neuadd y Gwendraeth ym mis Gorffennaf. Cafwyd llawer o hwyl – a diolch am y gefnogaeth yn ras y gweinidogion – ces i gam! 

## Dafad... ar goll?!



Roedd y dynion oedd yn casglu trethi i Rufain a phobl eraill oedd yn cael eu hystyried yn 'bechaduriaid' yn casglu o gwmpas Iesu i wrando arno. Ond roedd y Phariseaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn cwyno a mwmblan, "Mae'r dyn yma'n rhoi croeso i bobl sy'n 'bechaduriaid'! Mae hyd yn oed yn bwyta gyda nhw!"



Felly dyma Iesu'n dweud y stori yma wrthyn nhw: "Dychmygwch fod gan un ohonoch chi gant o ddefaid, a bod un ohonyn nhw wedi mynd ar goll.



Oni fyddai'n gadael y naw deg naw ar y tir agored ac yn mynd i chwilio am y ddafad aeth ar goll nes dod o hyd iddi? A phan mae'n dod o hyd iddi mae mor llawen! Mae'n ei chodi ar ei ysgwyddau ac yn mynd adre.

Wedyn mae'n galw'i ffrindiau a'i gymdogion draw, ac yn dweud wrthyn nhw, 'Dewch i ddathlu; dw i wedi dod o hyd i'r ddafad oedd wedi mynd ar goll.' Wir i chi, dyna sut mae hi yn y nefoedd – mae mwy o ddathlu am fod un pechadur wedi troi at Dduw nag am naw deg naw o bobl sy'n meddwl eu bod nhw'n iawn a dim angen newid!




# Chwilotair y Ddafad oedd ar goll

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | N | P | D | I | D | D | E | G | I | D | T | O | D |
| N | Y | I | F | B | U | O | F | T | B | N | E | P | F |
| D | U | C | E | A | L | F | F | R | O | D | O | A | D |
| E | L | A | N | S | D | N | D | L | H | N | P | B | A |
| I | L | N | D | U | U | A | O | N | L | L | O | C | I |
| A | A | T | I | D | M | G | U | A | L | G | D | I | C |
| T | W | T | E | A | L | R | B | P | R | A | I | D | D |
| L | E | D | U | E | A | A | A | I | C | R | W | B | A |
| D | N | A | P | D | H | D | M | G | P | D | F | U | U |
| R | Y | T | D | E | F | A | I | D | W | A | F | G | A |
| D | D | H | L | O | G | D | N | B | N | F | O | A | D |
| T | D | L | N | F | D | E | T | A | F | A | N | I | D |
| I | D | U | N | H | L | C | D | D | F | D | G | L | T |
| F | U | A | N | O | I | I | D | A | M | E | G | N | I |

DEFAID
DAFAD
IESU
DATHLU
CANT
BUGAIL
LLAWENYDD
DARGANFOD
COLL
PRAIDD
DAMEG
FFON



Helpwch Iesu i ddod o hyd i'r ddafad sydd ar goll!



Adnod i'w chofio...
'Myfi yw'r Bugail Da'
*Ioan 10*

Hwyl fawr am y tro!
Beti-Wyn



## MABOLGAMPAU MIC

Cafwyd noson arbennig yn Neuadd y Gwendraeth nos Wener 10 Gorffennaf ym Mabolgampau'r Ysgolion Sul. Bu plant o Ysgolion Sul Y Priordy a Cana yn cystadlu a chafodd Beti-Wyn gam yn ras y gweinidogion! Noson hwylus dros ben, diolch i bawb am ddod.












# COFIO EVAN JOHN ROBERTS - 'Y DIWYGIWR' 1878 – 1951

'David Beckham ysbrydol ei ddydd" – yn ôl Kevin Adams. Evan Roberts oedd arweinydd carismataidd Diwygiad 1904-05, amser o adfywiad ysbrydol a welodd 100,000 o bobl Cymru yn rhoi eu ffydd yn Iesu Grist.

Daeth Roberts, oedd yn 27 mlwydd oed yn 1904, yn enwog iawn am ei waith ac mae llawer yn priodoli dechrau'r symudiad Pentecostal rhyngwladol iddo fe.

I lawer o bobl roedd y Cymro dinod hwn o Gasllwchwr yn ateb i weddi - pregethwr dosbarth gweithiol oedd â chysylltiadau amlwg â'r diwydiannau peryglus oedd yng Nghymru cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.



Er iddo weithio yn y pyllau glo ers ei fod yn 12 mlwydd oed cyn hyfforddi fel gof, penderfynodd y Cristion hwn fod rhaid iddo bregethu gair Duw. Dechreuodd hyfforddi i fod yn weinidog, ond un noson pan oedd yn gweddïo am 'fethiant' Cristnogaeth, trawsnewidiwyd ei fywyd pan ymwelodd Duw ag ef yn ei freuddwydion.

Daeth Roberts i'r amlwg fel pregethwr tra oedd adfywiad crefyddol De a Gorllewin Cymru yn dal i fod ar y lefelau cyntaf, yng Ngwanwyn 1904. Daeth e mor enwog fel bod sôn am ei bresenoldeb mewn capel arbennig yn ddigon i ddenu cannoedd i'r man hwnnw.

Serch hyn roedd ei bregethau yn wahanol iawn i'r rhai cryf, ymosodol, tân-a-brwmstan a'r pregethu mwy blodeuog, ffurfiol oedd yn nodweddiadol o gapeli Cymraeg y cyfnod. Roedd e'n dawel a myfyrgar, gan wahodd y gynulleidfa i gymryd rhan a rhannu eu profiadau o'r Ysbryd Glân.

Cafodd yr arddull hwn ymateb cryf. Cyhoeddodd eglwysi twf o 80,000 yn niferoedd eu cynulleidfaoedd, a dilynodd miloedd mwy wrth i bobl deithio dros Brydian ac Ewrop i glywed Roberts yn siarad. Roedd y

papurau newydd yn llawn straeon amdano a'i ffrindiau, a sylweddolodd golygyddion yn fuan y gallant godi eu rhifau gwerthiant trwy gyhoeddi cofnodion dyddiol o'i helyntion.

Roedd effaith y diwygiad ar y gymdeithas gyfan yn syfrdanol mewn sawl ffordd. Gwelwyd cwymp sylweddol yn lefelau meddwi ac yng ngwerthiant alcohol wrth i filoedd ymwrthod ag yfed. Gostyngodd y lefel o dor-cyfraith hefyd wrth i bobl geisio byw bywydau mwy gonest a thalu eu dyledion. Dywedai cyflogwyr fod safon gwaith eu dynion wedi cynyddu. Yn ôl sôn roedd hyd yn oed y merlod oedd yn gweithio yn y pyllau glo wedi drysu oherwydd fod iaith anweddus y dynion oedd yn eu trin wedi gwella cymaint.

Roedd hyd yn oed Lloyd George, AS Caernarfon ar y pryd, yn canmol Roberts yn fawr iawn. Roedd pobl ifanc yn arbennig yn cael eu atynnu i'w arddull arbennig ef o bregethu a chyn hir roedd ganddo grŵp o ferched oedd yn ei ddilyn i bobman - roedd y papurau newydd yn cyhoeddi eu bod nhw wedi eu swyno gan y *'Wesley Cymraeg'*.

Fe ddaeth yr arddull hwn o bregethu yn batrwm yr nifer fawr o bregethwyr yn y symudiad Pentecostaidd yn ei ddilyn, sydd bellach â niferoedd o tua 115 miliwn dros y byd.

Yn anffodus, wedi ond blwyddyn yn llygaid y cyhoedd, roedd Roberts wedi llosgi ei hunan allan a phenderfynodd ymddeol. Cyn bo hir trodd y diwygiad yn anhrefn llwyr, ond erbyn hynny roedd wedi gosod y sylfaen i adfywiad tebyg yn America, ddigwyddodd ychydig o flynyddoedd wedyn.

Aeth i Loegr i orffwys lle bu'n byw am sawl blwyddyn cyn dychwelyd i Gymru. Treuliodd ei flynyddoedd olaf yng Nghaerdydd, yn barddoni, cyn ei farwolaeth yn 1951, Roedd yn 72 mlwydd oed ac yn ddi-briod.

**NODYN**

***Codwyd yr erthygl o cymrybywyd - BBC Cymru. Bernid y byddai'n werth ei darllen, yn enwedig gan fod 75 mlynedd wedi mynd heibio ers colli Evan Roberts – bu farw 29 Ionawr 1951. Fe' i claddwyd ym meddrod y teulu ym Moriah, Casllwchwr. Dadorchuddiwyd cofeb iddo yn 1953 o flaen capel Moriah.***

***Llun: Cerdyn Post yn perthyn i gyfres o gardiau post ('Revival Series') a gyhoeddwyd gan y 'Western Mail' i nodi'r diwygiad crefyddol yng Nghymru, 1904-5.***

**PEN-BLWYDD HAPUS**



**Llongyfarchiadau i John Meredith a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 yn ystod mis Gorffennaf. Pleser gan ein Gweinidog oedd cael ei gyfarch ar ran aelodau'r Priordy**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN**
**CWRDD CHWARTER**



**Dydd Iau 10 Medi 2026 -**
**Capel Hermon, Cynwyl Elfed, SA33 6SR**

**Y Gynhadledd am 4.00 / Cyfarfod yr Hwyr am 7**

**Croesawu cynrychiolwyr o 'r Tabernacl, Efail Isaf, yn yr hwyr i siarad am y newidiadau y maen nhw wedi'u gwneud yn yr eglwys**

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn

## Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

# APÊL MIS MEDI 2026

glandeg
RHWYDWAITH MERCHED
yn cefnogi
Beauty Banks

**NWYDDAU HYLENDID PERSONOL**

**COLUR**

**NEWYDD OS GWELWCH YN DDA (NID CYFLE YW HWN I GLIRIO EICH CYPYRDDAU! DIOLCH)**

## ATEBION Y CWIS - MIS MEDI

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | brywes | 6 | pentan |
| 2 | dwrn | 7 | wedd |
| 3 | boch | 8 | gad |
| 4 | ddaear | 9 | cheffyl |
| 5 | pentan | 10 | chadw |




Dyma ail-ddychmygiad beiddgar o glasur Islwyn Ffowc Elis sy'n gofyn pa ddyfodol sy'n cael ei greu gan ein heddiw?

**FRÂN WEN**
**yn cyflwyno**

**WYTHNOS YNG NGHYMRU FYDD**

**Dramodydd: Mared Llywelyn**

**Nos Fawrth 13 Hydref 2026**
**7.30pm**
**Theatr y Lyric**
**Tocynnau: £20/£18.50**
**Addas ar gyfer 14+**

**Llongyfarchiadau i Steffan Jones (C) a Sara a briodwyd yn Gellifawr yn ystod mis Awst. Dymuniadau gorau oddi wrth bawb yng Nghana**



**Llongyfarchiadau mawr i Gwilym Dyfri (HA) ar dderbyn Cymrodoriaeth Anrhydeddus Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ddiweddar**



Tra oedd Beti Wyn yn beirniadu Bake Off Bancyfelin ar ddiwrnod y Carnifal, cyhoeddwyd taw Capel Bancyfelin oedd wedi ennill y gystadleuaeth creu Bwgan Brain gyda 13 yn cystadlu! Diolch o galon i Trefina ac Eirian am eu gwaith yn creu'r bwgan brain a oedd yn seiliedig ar fand Hawksfeild! Gwych iawn!




**GWASANAETH HAF CARTREF PRESWYL PLAS-Y-DDERWEN**

**Thema'r oedfa oedd Cyfeillgarwch Beti Wyn a Catrin Ann yn arwain Mai Thomas yn cyfeilio**









## Cofio Sulwyn



Bu'n Fyrddin ei chwerthiniad
a gŵyl o lais dros ein gwlad;
gohebydd bob dydd ar daith
ein gohebydd llawn gobaith,
erioed yn llawn brwdfrydedd,
un triw sydd heddiw mewn hedd.
A'r wên fu ei gyfrinach
a hi'r wên fwy ar sgrîn fach,
ei fro fu'i stiwdio a'r stôr
ein Thomas bob un tymor.

Dewin iaith y Stondin oedd,
wedyn y jocyr ydoedd;
am aros mae'r storm eira,
cymwynasau'r dyddiau da.
Drwy'r radio'n llawn direidi
trodd hen Ŵyl yn hwyl i ni,
bob awr fe fu sawl bore
yn hel hon draw i L. A.
Cawr â'i ffydd a'r meicroffôn
â Glangwili'n ei galon,
radio'r hwyl yn 'sbyty'r dre,
a'i iaith, ym myd y pethe,
yn hael ei chyfarchion hi
yn foddion drwy'r tonfeddi.
Drwy'r haf bu'r Llyfrau Llafar
yn iacháu â'u geiriau gwâr,
rhoi'r heulwen mewn cyfrolau
yn sŵn coll y nos yn cau;
arloesydd i'r elusen
a lleisiau llyfrau a llên.



**Geraint Roberts**

**Enillodd Geraint Roberts glod uchel am y cywydd hwn ar y testun Arloesydd yn Eisteddfod y Garreg Las. Diolch iddo am ganiatâd i'w gyhoeddi yn y Papur hwn. Diolch hefyd i Peter Hughes-Griffths am dynnu'n sylw at hyn ac am ei gymorth parod.**

**Cynhaliwyd noson yn y Parc y tu ôl i'r Priordy i nodi diwedd tymor Pobl Ifainc y Priordy (PIP). Trefnwyd y noson gan Tim a Rebeca a chafwyd hwyl yn chwarae rownderi cyn mwynhau gwledd o pitsa yn y festri. Diweddwyd y noson gyda myfyrdod byr a gweddi gan Beti-Wyn**




**Bu Plant Ysgol Sul Cana yn mwynhau pobi bara'n ddiweddar!**



## BORE COFFI -MACMILLAN -COFFEE MORNING

Gwener 25 Medi 2026
Friday 25 September 2026

Clwb y Cwins, Abergwili
Quins Club Abergwili

10.00-12.00
Mynediad am ddim/Free entry

Stondynau/Stalls
Raffl

Croeso i bawb/All welcome

Trefnwyd gan Ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin
Arranged by the members of the pastorate of Carmarthen and Bancyfelin
Cyswllt/Contact Beti-Wyn James parchbetiwyn@gmail.com

**ISLWYN**

***Nofelydd - Cerddor – Gwleidydd***



Castell Aberteifi - 23 Medi 2026 – 7.30

Tocynnau: £10-£12.50

Dramodydd: Geraint Lewis
Actor: Jonathan Nefydd
Cyfarwyddwr: Janet Aethwy

*Dros ganrif ers ei eni caiff awdur Wythnos yng Nghymru Fydd gyfle i deithio trwy amser i ganfod a gafodd yr hyn a broffwydodd ei wireddu.*

*Dyma olwg o'r newydd ar Islwyn Ffowc Elis - eicon o'n llenyddiaeth oedd yn llawn cymhlethdodau diddorol.*

*EIN* cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Elfyn James (HA) a Meinir Lloyd (P). Cofion annwyl atoch i gyd.

Mae Gladwen Meredith (P) wedi symud i'w chartref newydd yn Hafan Tywi a dymunwn yn dda iawn iddi.

Gwelwyd Papur Llafar y Deillion yn dathlu'i ben-blwydd yn 50 oed yng Nghlwb y Cwins, Caerfyrddin ar Prynhawn Da ar S4C. Cafwyd cyfweliad gyda'r sylfaenydd Rhian Evans (P) a dynnodd sylw at gyfraniad nodedig y diweddar Sulwyn Thomas i'r fenter. Yn diddanu'r gwesteion yn y parti roedd Côr Meibion Caerfyrddin. Pob dymuniad da i'r Papur i'r dyfodol.

Bu'r Cynghorydd Emlyn Schiavone (P) ar Newyddion S4C yn mynegi siom a syndod am ymosodiad difrifol a ddigwyddodd ym Mharc Caerfyrddin beth amser yn ôl.

Yn dilyn y newyddion fod Pwll Nofio Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn cau cafwyd ymateb gan rai o'r defnyddwyr yn mynegi siom, yn cynnwys Alison Parsons (P) a ddywedodd wrth Newyddion S4C ei bod hi a'i merch yn mynychu sesiynau acwa aerobeg drwy gyfrwng y Gymraeg yno bob dydd Llun a bod y gallu i gymdeithasu drwy eu mamiaith yn rheswm mawr dros gymryd rhan.

Bu Brian Walters (E) yn siarad ar Radio Cymru o'r Sioe Frenhinol am yr argyfwng dŵr. Bu Rhian Evans (P) yn sôn am y Sul Sbesial ar Bwrw Golwg ar Radio Cymru a bu'r Dr Huw Michael (P) ar Newyddion S4C a Radio Cymru'n trafod **y** cap ar bris ynni sy'n codi i'w lefel uchaf ers tair blynedd yn yr hydref.

Talwyd teyrnged arbennig a haeddiannol iawn i Sulwyn yn ystod Eisteddfod y Garreg Las ac mae'n diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran, yn cynnwys ein Gweinidog a Rhian Evans(P) ac i bob un a ddaeth i'r cyfarfod.

Llongyfarchiadau mawr i'n pobl ifainc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau allanol a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol, boed mewn ysgol, coleg, prentisiaeth neu waith. Graddiodd y canlynol eleni: Gareth Jones (P) Mathemateg, Lucy Jones (P), Gradd Meistr mewn Saesneg, Betsan Elias (P) Gradd Meistr mewn Fferylliaeth a Gwenan Jones (P) Blynyddoedd Cynnar.

Mae gan Dr Angharad (P) slot 'Y Syrjeri' ar Prynhawn Da unwaith neu ddwy y mis ar brynhawniau Iau. Roedd y slot cyntaf yn cynnwys trafod wythnos ymwybyddiaeth alcohol, sut i gadw'n ddiogel yn y gwres a phroblemau'r prostad.

Dymuniadau gorau i Heledd Dafis (E) a Jonathan Gostling a fydd yn priodi yn Elim ar Ddydd Sadwrn 12 Medi.

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Wyn Davies (P) a Brieg Dafydd ar enedigaeth Llywelyn Wyn Dafydd, ŵyr arall i Jan Davies (P).

Llongyfarchiadau mawr i Aled a Mirain Walters (E) ar enedigaeth Beca Gwawr, chwaer fach i Erin a Betsi a wyres newydd i Brian ac Ann Walters.

**GAIR O DDIOLCH**

**Gyda llawer o ddiolch i Beti-Wyn ac aelodau'r Priordy am eu dymuniadau gorau a'r hamper hyfryd o bethau neis i ddathlu fy mhen-blwydd yn 90.**

**John (Meredith)**

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

Estynnnwn ein cydymdeimlad cywir â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:

Margaret Jones (C) ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, Dr Mair Walker Llandrillo-yn-Rhos a oedd hefyd yn fodryb i Stephen Jones (C) ac yn gyfnither i Margaret Davies (HA). Cofiwn yn annwyl am Mair a'i diweddar ŵr, Y Parchedig Glyndwr Walker ac am eu gweithgarwch dros y Ffydd Gristnogol yn y Priordy a thu hwnt.

Rachel Davies (P) ar golli'i brawd yng nghyfraith Richard Safadi, Caerfyrddin.

Roderick Evans (B), Ffynnonseiri ar farwolaeth sydyn ei gymar Ann. Bydd yr angladd Ddydd Iau 10 Medi pan gynhelir oedfa gyhoeddus yn Eglwys Dewi Sant Meidrim am 11 o'r gloch.

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Bet (Fach) Jones, un o ddiaconiaid Elim. Estynnnwn ein cydymdeimlad â Rhidian, Nia ac Ifan, ynghyd â'r cysylltiadau teuluol eraill, gan gynnwys Ernest a Janet (HA). Bydd teyrnged i Bet yn rhifyn Hydref Y Ddolen. Cynhelir yr angladd Ddydd Gwener 4 Medi - oedfa gyhoeddus am 11.00 y bore yn Elim Ffynnon-ddrain gyda chladdegiaeth i ddilyn ym mynwent Eglwys Talyllychau.

Meddyliwn amdanoch oll yn eich colled a'ch hiraeth.

# Cyrddau Diolchgarwch 2026

## *Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin*

### ** Priordy

Sul 4 Hydref.
Oedfa Deulu am 10.00
Oedfa am 5.00. Pregethwr gwadd:
*Y Gwir Barchg Dorrien Davies, Esgob Tyddewi*
Swper i ddilyn

### ** Elim

Sul 4 Hydref
Oedfa Deulu am 11.30
Paned i ddilyn

### ** Cana

Sul 4 Hydref
Oedfa Deulu am 1.30
Mercher, 7 Hydref. Oedfa am 7.00.
Pregethwr gwadd: *Y Parchg Jean Voyle Williams*
Swper i ddilyn

### ** Heol Awst

Sul 11 Hydref, Oedfa am 3.00
gyda Beti-Wyn a'r aelodau.
Paned i ddilyn

### ** Bancyfelin

Iau, 15 Hydref. Oedfa am 7.00.
Pregethwr gwadd: *Tudur Dylan Jones*

*Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon*

## DYLETSWYDDAU MEDI/HYDREF



**BANCYFELIN**
Gofalwr Medi - Moira Howells
Gofalwr Hydref – Meinir Walters
Cyhoeddwr Medi - Veronica Evans
Cyhoeddwr Hydref – Eirian Thomas
Organydd Medi - Trefina Jones
Organydd Hydref – Carwen Howells
Blodau:
- Medi 6 - Moira Howells
- Medi 27 – Susan Fitzpatrick
- Hydref 11 – Meinir Walters

Ymwelwyr Medi/Hydref - Gwyneth Griffiths a Meinir Walters

**CANA**
Gofalwr Medi - Carolyn Hancock
Gofalwr Hydref – Ken Thomas
Cyhoeddwr– Marlene Jones
Organydd – Mair Jones
Blodau:
- Medi 13 - John a Vernon Thomas
- Hydref 4 - Non James

Ymwelwyr Medi/Hydref:
Rhian a Meurig Bowen, Bet a Kendrick Jones

**ELIM**
Cyhoeddwr: Brian Walters
Blodau:
- Medi 6 - Maureen Jones
- Medi 20 – Ann Walters
- Hydref 4 – Anona Davies

Gosod y Bwrdd Cymun:
- Medi 7 - Alison Evans
- Hydref 4 – Amanda Rees Davies

Ymwelwyr Medi/Hydref - Yr aelodau

**HEOL AWST**

Cyhoeddwr: Nigel George
Ymwelwyr Medi/Hydref - Yr aelodau
Cyfeilydd:
  Medi 13 - Olga Williams
Dyletswyddau'r Sul:
  Medi – Rhian Jones a Nigel George
  Hydref – Ernest Jones a Dave Thomas

**Y PRIORDY**

Gofalwr Medi - Elinor Wyn Reynolds
Gofawr Hydref – Meleri Llwyd O'Leary
Gwresogwr Medi – Adrian Evans
Gwresogwr Hydref – Philip Jones
Cyhoeddwr Medi - Adrian Evans
Cyhoeddwr Hydref – Tim Hayes
Gosod y Bwrdd Cymun
  Medi 6 (Bore) – Eleri Thomas a Delyth Davies
  Hydref 4 (Hwyr) – Llinos Jones ac Elinor Wyn
Darllenwyr:
  Medi 6 - Rhodri Rees
  Medi 13 - Y Plant (Oedfa Deulu)
  Medi 20 - Heledd Tomos
  Medi 27 - Alwen Owen
  Hydref 4 – Y Plant (Oedfa Deulu)
Ymwelwyr Medi/Hydref – Gweinidog
Blodau:
  Medi 6 - Catrin Haf Williams
  Medi 13 - Catrin Haf Williams
  Medi 20 - Alwen Owen
  Medi 27 - Alwen Owen
  Hydref 4 – Meinir Jones

**CWRDD EGLWYS**

**DYDD SUL 13 MEDI 2026**

**Cynhelir Cwrdd Eglwys yn y Priordy wedi'r oedfa am 10 ac yn Heol Awst wedi'r oedfa am 3.**

**Apeliwch am eich presenoldeb – Diolch yn fawr iawn**

| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| **BANCYFELIN** | **Nos Iau 22 Medi** | **7.00** | **Y Festri** |
| | | | |
| **CANA** | **Prynhawn Iau 17 Medi** | **1.30** | **Y Festri** |
| | | | |
| **ELIM** | **Bore Mercher 16 Medi** | **11.00** | **Y Capel** |
| | | | |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher 16 Medi** | **2.00** | **Y Festri** |
| | | | |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun 28 Medi** | **7.00** | **Y Festri** |

**EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU**

**SASIWN CENHADOL Y DE**
**ENCIL CENHADOL**



**Neuadd Llanddarog**
**Medi 24ain 2026**
**Dechrau am 11 gyda choffi o 10.15 ymlaen**

**Arweinydd: Thomas Ellis Williams**
**Thema: 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin'**

**£22 fydd cost y dydd**
**Darperir cinio dau gwrs**

**CAPEL HEOL AWST**



**CWRDD HANNER BLYNYDDOL**

**Dydd Sul 13 Medi 2026 – 3 o'r gloch**

**Y PARCHEDIG OWAIN LLYR EVANS**
***Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***

# SULIADUR MEDI - HYDREF 2026

| Dyddiad | 10.00 | 11.30 | 1.30 | 3.00 | 5.00 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Medi 6** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | Bancyfelin ©<br>Gweinidog | | Rihyrsal Cymanfa Ganu am 5.00 yn y Priordy |
| **Medi 13** | Priordy – Oedfa Deulu<br>Gweinidog<br>Cwrdd Eglwys | | Cana ©<br>Gweinidog | Heol Awst © (+E, P)<br>Oedfa 1/2 blynyddol<br>Owain Llyr Evans a'r Gweinidog<br>Cwrdd Eglwys | Rihyrsal Cymanfa Ganu am 5.00 yn Babell Zion Newydd |
| **Medi 20** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth | | |
| **Medi 27** | Priordy<br>Gweinidog | | Bancyfelin<br>Gweinidog | | Cymanfa Ganu am 5.00 yn Babell Zion Newydd |
| **Hydref 4** | Priordy<br>Oedfa Deulu<br>Diolchgarwch | Elim © (+HA)<br>Oedfa Deulu<br>Dlochgarwch | Cana ©<br>Oedfa Deulu<br>Diolchgarwch | | Priordy© (+HA,E)<br>Dorrien Davies, Esgob Ty Ddewi<br>Swper i ddilyn |

# Amserlen yr Ysgolion Sul – Medi 2026



| | CANA | ELIM | Y PRIORDY |
|---|---|---|---|
| 6 Medi | | | |
| 13 Medi | YS | YS | Oedfa Deulu Fer |
| 20 Medi | | YS | YS a PIP |
| 27 Medi | YS | YS | YS |

**Y Samariaid yng Nghymru: Ffoniwch 116 123**
**Tir Dewi: Ffoniwch 0800 121 4722**
**Anxiety UK: Ffoniwch 03444 775774**
**CALM: Ffoniwch0800 585858**
**Mind: Ffoniwch 0300 123 3393**
**No Panic: Ffoniwch 0844 967 4848**
**Bereavement: Ffoniwch 0800 068 4141**
**Abuse: Ffoniwch 0808 2000 5000**
**Refuge:Ffoniwch 0808 200 0247**
**DPJ, Rhannwch Y Baich – 0800 587 4262**
**neu'r linell neges destun – 07860 048 799**




**THEATR BARA CAWS**
***yn cyflwyno***
**DADRA**
***gan***
**Gruffudd Owen**
**16 Medi 2026: 7.30**
**Neuadd San Pedr**
**Caerfyrddin**
**Tocynnau: £15**
**ymholiad@mgsg.cymru**

# CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH

## NOS SUL, 27 MEDI 2026 – 5 YR HWYR

**CAPEL BABELL ZION NEWYDD, PENSARN, CAERFYRDDIN SA31 2DJ**

*Arweinydd:*
**Y PARCHEDIG WYN MASKELL, ABERTEIFI**

*Organydd:*
**CAROLE REES**

## Ceir eitemau gan Gôr Meibion Caerfyrddin

Arweinydd Wyn Maskell
Cyfeilydd Heather Williams

## Rihyrsals fel y ganlyn

**Nos Sul, 6 Medi 2026 am 5**
Festri Y Priordy
Arweinydd: Helen Gibbon
Cyfeilydd: Heather Williams

**Nos Sul, 13 Medi 2026 am 5** (Prif Rihyrsal)
Capel Babell Zion Newydd, Pensarn
Arweinydd: Helen Gibbon
Cyfeilydd: Carole Rees

**Rhaglenni'r Gymanfa - £3.50** (hen Nodiant neu Sol-ffa)
*Ar gael gan Huw Michael (P) Olga Williams (HA) Elisabeth Evans (Elim)*

## Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2025-2026

2 Christine; 11 Newark; 12 Flemming; 13 Arweiniad; 14 Cwm Rhondda; 15 Mainzer; 16 Paradwys; 17 Abends; 18 Godre'r Coed; 19 Fel Yr Hydd; 20 Cerddwn Ymlaen; 21 Diadem; 22 Weimar; 23 Heddwch ar Ddaear Lawr;